

# SIARTER GYNLLUNIO CYNGOR GWYNEDD

## Pwrpas

Pwrpas y siarter yw gosod safon y gwasanaeth y bydd y Gwasanaeth Cynllunio yn anelu i'w ddarparu i'n cwsmeriaid.

## Y Gwasanaeth Cynllunio

Yn bennaf, mae dyletswyddau'r Gwasanaeth Cynllunio yn cynnwys darparu cyngor cynllunio cyffredinol, cyngor cyn gwneud cais, ymdrin â cheisiadau cynllunio, ceisiadau am ganiatâd adeilad rhestredig, ymchwilio i honiadau o ddatblygiadau heb eu hawdurdodi ac ymdrin ag apeliadau cynllunio ac apeliadau gorfodaeth. Mae gan y Gwasanaeth hefyd rai timau arbenigol, yn ymwneud â'r amgylchedd adeiledig, cynllunio gwastraff a mwynau a pholisi cynllunio.

## Ein Nod

- Darparu gwasanaeth cyfeillgar, cwrtais a phrydlon
- Cynnal safonau proffesiynol uchel
- Gwneud y penderfyniadau gorau posib er mwyn hyrwyddo'r economi a diogelu cymunedau lleol a'r amgylchedd
- Darparu gwasanaeth effeithlon ac effeithiol sy'n canolbwyntio ar anghenion ein cwsmeriaid.

## Mae modd i chi gysylltu â ni drwy

- Greu cyfrif hunanwasanaeth ar Wefan y Cyngor ar gyfer ymholiadau cynllunio cyffredinol, gan gynnwys ceisiadau ynghylch a oes angen caniatâd cynllunio ai peidio neu ymholiadau'n ymwneud â honiadau o ddatblygiadau heb eu hawdurdodi neu geisiadau i gynnal cyfarfod, oni bai am gyngor cyn gwneud cais sy'n berthnasol i'r materion hynny.
- Defnyddio Gwefan y Porth Cynllunio i gyflwyno ceisiadau cynllunio.
- Defnyddio "Dilyn a Darganfod" ar y wefan i ymateb yn electroneg i geisiadau cynllunio cyfredol.
- Defnyddio "Dilyn a Darganfod" i ddod o hyd i fanylion caniatâd cynllunio diweddar a chyflwyno pryderon nad yw datblygiad penodol yn cydymffurfio â thelerau'r caniatâd.
- Gohebu â'n swyddfa: Gwasanaeth Cynllunio, Ffordd y Cob, Pwllheli, Gwynedd, LL53 5AA ynghylch unrhyw faterion cynllunio a materion yn ymwneud â choed.
- Ffonio'r ganolfan gyswilt (Galw Gwynedd) ar **01766 771000** ynghylch ymholiadau cynllunio cyffredinol, cyngor cyn cyflwyno cais, gofyn am ffurflenni, nodiadau arweiniol, gwybodaeth, ac honiadau yn ymwneud â datblygiadau heb eu hawdurdodi .
- Ymweld â Siop Gwynedd yn Swyddfeydd Pwllheli, Dolgellau a Chaernarfon .

## Safonau ein Gwasanaeth

### Ymholiadau Cyffredinol (e.e. ydw i angen caniatâd cynllunio?)

Bydd y gwasanaeth yn:-

- Darparu nodiadau arweiniad clir ar bob agwedd berthnasol y system gynllunio ar wefan y Cyngor
- Darparu opsiynau cyfathrebu electroneg i'n cwsmeriaid drwy gyfrwng gwefan y Cyngor a darparu un pwynt cyswllt ar gyfer gohebu trwy'r post.
- Cydnabod unrhyw ohebiaeth electroneg o fewn **5 diwrnod gwaith** i'w derbyn, a chydabod llythyrau o fewn **5 diwrnod gwaith** i'w derbyn
- Ymateb i alwadau ffôn sy'n cael eu trosglwyddo gan y Ganolfan Gyswllt o fewn **3 diwrnod gwaith** i'w derbyn
- Ymateb i unrhyw ohebiaeth electroneg a llythyrau gydag ateb llawn neu ateb dechreuol o fewn **15 diwrnod gwaith** i'w derbyn

### Cyngor cyn gwneud cais

Yn unol â'r Nodyn Canllaw ar Gyngor Cyn Gwneud Cais, mae'r Gwasanaeth Cynllunio yn darparu cyngor cyn cyflwyno cais a gwybodaeth ffurfiol ysgrifenedig ar gyfer amryw o ddatblygiadau arfaethedig. Y pwrpas yw darparu gwell gwasanaeth i'n cwsmeriaid, gwella ansawdd ceisiadau a chyflymu'r amser mae'n cymryd i wneud penderfyniad ar geisiadau cynllunio.

Bydd y cyngor yn cynnwys

- Eglurder am ba bolisiau / safonau sy'n berthnasol i'r datblygiad
- Adnabod yn gynnar yn y broses unrhyw angen am fewnbwn arbenigol (e.e. adeiladau rhestredig; coed; y dirwedd; sŵn; trafnidiaeth; tir wedi'i halogi, ecoleg neu archaeoleg)
- Helpu i gyflwyno cais sy'n gyflawn ac yn electroneg ac i safon dderbyniol gan osgoi oedi yn ystod y cam cofrestru/dilysu neu gael ei wrthod yn gynnar oherwydd nad oes gwybodaeth ddigonol wedi'i chynnwys
- Cyngor i baratoi cais ddylai, os rhoddir ystyriaeth lawn i'r cyngor a roddwyd, gyflymu'r broses o benderfynu cais
- Gostyngiad yn yr amser a dreulir gan ymgynghorwyr proffesiynol yn ogystal ag arbed costau, wrth baratoi cynigion
- Cyngori pan fo egwyddor y datblygiad yn annerbyniol, gan arbed y gost o wneud cais

### Prosesu ceisiadau

- Cofrestru ceisiadau cynllunio dilys o fewn **5 diwrnod gwaith** i'w derbyn.
- Cysylltu ag ymgeiswyr o fewn **5 diwrnod gwaith** os yw cais yn anghyflawn ac /neu'n annilys, gan egluro (wrth gyfeirio at Brococol Gwybodaeth i'w Gyflwyno Gyda Cais y Cyngor) beth sydd ar goll neu sut i gywiro unrhyw gamgymeriadau
- O fewn 24 awr, rhoi copiâu o'r ceisiadau dilys ar "Dilyn a Darganfod" ar wefan y Cyngor.
- Pan nad yw mynediad at "Dilyn a Darganfod" yn bosibl neu'n ymarferol, bod modd, wrth drefnu ymlaen llaw, i gael gweld copiâu caled o'r cais a'r cynlluniau.
- Anelu i wneud penderfyniad ar o leiaf **70%** o'r holl geisiadau cynllunio **o fewn 8 wythnos**, er gall ceisiadau mawr gymryd mwy o amser.
- Rhoi gwybod i ymgeiswyr a rhoi rhesymau pe bai angen ymestyn y cyfnod **8 wythnos**.
- Sicrhau bod y swyddog achos perthnasol yn ymweld â'r safle o fewn **15 diwrnod** i gofrestru'r cais.

- Sicrhau y cofnodir pob ymweliad safle a thrafodaeth ffôn yn y gronfa ddata gynllunio electroneg.
- Anelu i wneud penderfyniad ar o leiaf **80%** o'r ceisiadau cynllunio dan bwerau dirprwyedig yn unol â Chynllun Dirprwyo'r Cyngor (gweler Cynllun Dirprwyo ar y wefan hon)

### Cyhoeddusrwydd ceisiadau cynllunio

- Yn ogystal â'r gofynion statudol sy'n ymwneud â chyhoeddusrwydd, byddwn yn:
- Cynnal a gwella'r cyfleuster i weld ac ymateb i geisiadau cynllunio drwy system Dilyn a Darganfod y Cyngor ar ein gwefan.
- Hyrwyddo rhestr wythnosol o'r ceisiadau cynllunio a gofrestrwyd a cheisiadau a benderfynwyd ar wefan y Cyngor.
- Gwneud y mwyaf o gyfleoedd i gyfathrebu / ymgynghori'n electroneg.

### Gorfodaeth Gynllunio (Honiadau o ddatblygiad heb ei awdurdodi)

- Cydnabod unrhyw ymholiad yn ymwneud â gorfodaeth a dderbynnir o fewn **5 diwrnod gwaith**.
- Ymchwilio a chynnal ymweliadau safle ar achos o flaenoriaeth uchel (fel y diffinnir ym Mholisi Gorfodaeth Gynllunio Gwynedd) **ar unwaith neu o fewn 24 awr (Hyn yn cynnwys achosion o flaenoriaeth uchel sy'n cael eu trosglwyddo gan y Ganolfan Gyswilt)**
- Ymchwilio i ymholiadau ac ymweld â'r safle a rhoi ymateb dros dro i ymholiadau o fewn **15 diwrnod gwaith** gan roi blaenoriaeth i achosion sydd o flaenoriaeth uchel (gweler Polisi Gorfodaeth Gynllunio Cyngor Gwynedd).
- Pe bai angen dechrau gorfodaeth ffurfiol, rhoi gwybod i'r ymholwr am y penderfyniad o fewn **5 diwrnod gwaith** a'i ddiweddarau ar ôl hynny yn ôl y gofyn
- Anelu i ddatrys **75%** o gwynion gorfodaeth o fewn **12 wythnos** i'w derbyn.
- Parchu dymuniadau ymholwyr os dymunant gadw eu henw a'u manylion cyswilt yn gyfrinachol.

### Cadwraeth Adeiladau a Choed

- Sicrhau bod swyddogion cynllunio yn ceisio cyngor y Swyddog Cadwraeth Adeiladau a'r Swyddog Coed, a phan fo angen, yn eu cynnwys mewn cyfarfodydd wrth roi cyngor cyffredinol, darparu cyngor cyn gwneud cais, ymdrin â cheisiadau cynllunio ac wrth ymdrin ag achosion gorfodaeth pan fo hynny'n berthnasol.
- Sicrhau bod y swyddog coed a'r swyddog cadwraeth adeiladau ar gael, drwy drefnu ymlaen llaw, yn ystod oriau swyddfa i ddarparu cyngor arbenigol ar gadwraeth a dyluniad adeiladau hanesyddol. Yn ogystal, gellir trefnu cyfarfodydd gyda'r Swyddogion Cynllunio a'r Swyddog Coed a Chadwraeth Adeiladau, yn unol â disgresiwn y Swyddog Cynllunio, drwy'r gwasanaeth cyngor cyn gwneud cais.

### Polisi Cynllunio

- Paratoi a chynnal fframwaith polisi cynllunio cyffredol ar gyfer ardal Awdurdod Cynllunio Lleol Cyngor Gwynedd a Chyngor Sir Ynys Mon.
- Hysbysebu polisïau a bwriadau cynllunio newydd yn eang, gan gynnwys gwefan y Cyngor, gan roi cyfle i bobl wneud sylwadau'n unol â'r rheoliadau cynllunio perthnasol.
- Sicrhau bod copïau o Gynllun Datblygu Unedol Gwynedd a dogfennau perthnasol ac unrhyw ganllawiau cynllunio atodol ar wefan y Cyngor.

- Sicrhau bod Swyddogion Polisi Cynllunio ar gael yn ystod oriau swyddfa i ddarparu cyngor a gwybodaeth ar faterion yn ymwneud â pholisi cynllunio. Dylid trefnu ymlaen llaw os oes angen gweld swyddog penodol
- Cysylltu â'r ymgynghorai a'r cyhoedd ac ystyried yn ofalus y sylwadau a wneir ar ddogfennau polisi cynllunio newydd gan roi gwybod i'r sawl sy'n ymateb sut mae'r Cyngor yn bwriadu ymdrin â'u pryderon yn unol a'r rheoliadau cynllunio perthnasol.

### **Gwella'n barhaus**

- Mae'r Cyngor yn croesawu sylwadau am y gwasanaeth a ddarperir ac yn anfon holiaduron gofal cwsmer i ymgeiswyr ac asiantwyr gyda phob penderfyniad cynllunio a gorfodi. Mae trefn hefyd yn bodoli i gysylltu ag Ymgeiswyr/Asiantwyr wedi iddynt dderbyn penderfyniad yn holi am eu barn am y gwasanaeth a dderbyniwyd. Defnyddir yr ymatebion i fonitro perfformiad ac er mwyn gwella'r Gwasanaeth Cynllunio.
- Ymdrecha'r Cyngor i wella'i Wasanaeth ac mae'n adolygu ei dargedau a'i berfformiad yn flynyddol.

Pe bai gennych unrhyw gwestiynau ynghylch y targedau gwasanaeth hyn, neu eich bod eisiau gwneud sylwadau ar y targedau neu'r gwasanaeth a ddarperir, ysgrifennwch at Uwch Reolwr y Gwasanaeth Cynllunio ac Amgylchedd.

### **Cwyno am y gwasanaeth**

Byddwn yn delio â chwynion am y gwasanaeth yn unol â Threfn Gwyno'r Cyngor ac mae copi ohoni ar gael ar wefan y Cyngor neu mae modd gwneud cais am un.